Cynnal dogfennaeth sy'n seiliedig ar brosiectau TG

## Trosolwg

Mae rheoli prosiect TG yn cynnwys y cymwyseddau sydd eu hangen i gynllunio, gweithredu, cyflwyno, monitro a rheoli'r holl weithgareddau a thasgau sy'n ofynnol yn ystod prosiect TG i gyflawni ei amcanion a nodwyd.
Mae'r safon hon yn cwmpasu swyddogaeth swyddfa ar gyfer prosiectau TG, gan roi cymorth gweinyddol i noddwyr prosiectau, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, a rhanddeiliaid sy'n ymwneud â'r rhaglen ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Creu ystorfa o brosiectau mewn swyddfa i storio'r holl ddogfennaeth ar gyfer prosiect, gan gynnwys:
1.1 cynllun y prosiect
1.2 rhestr o'r cerrig milltir a'r hyn amcanion i'w cyflawni
1.3 y log o'r risgiau
2. Cofnodi cynnydd prosiect TG gan ddilyn canllawiau adrodd ar berfformiad
3. Paratoi a dosbarthu dogfennau prosiect i aelodau tîm y prosiect a rhanddeiliaid yn unol â safonau sefydliadol
4. Cyfeirio unrhyw faterion ansawdd sy'n ymwneud â'r ddogfennaeth a ddefnyddir mewn prosiect i'r rhai sy'n gyfrifol, yn unol â safonau sefydliadol
5. Ymchwilio i faterion perfformiad i roi eglurhad i reolwr y prosiect
6. Paratoi adroddiadau ar gynnydd y prosiect er mwyn cyfathrebu â rhanddeiliaid y prosiect

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Pwysigrwydd dogfennu camau prosiectau TG yn gywir
2. Camau cylch bywyd y prosiect TG a gweithdrefnau i'w cymeradwyo ym mhob cam
3. Nodau ac amcanion y prosiect TG
4. Rolau a chyfrifoldebau unigolion sy'n ymwneud â thîm y prosiect
5. Yr angen i ganfod, casglu, coladu a chofnodi gwybodaeth berthnasol am brosiect TG
6. Y weithdrefn i'w dilyn ar gyfer rheoli newidiadau a diwygiadau i ddogfennaeth prosiect
7. Y safonau ansawdd mewnol a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i ddogfennaeth prosiect
8. Yr offer safonol a ddefnyddir wrth gynllunio a rheoli prosiect TG
9. Y gweithdrefnau, y canllawiau a'r safonau sy'n ymwneud â rheoli prosiect TG
10. Lle bydd y ddogfennaeth sy'n ymwneud â phrosiect TG yn cael ei storio

Cynnal dogfennaeth sy'n seiliedig ar brosiectau TG

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Tech Partnership |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Maw 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Maw 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | The Tech Partnership |
| **RCU gwreiddiol** | TECIS30131 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Swyddog Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Gweithwyr Proffesiynol Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu |
| **Cyfres/Set** | TG a Thelathrebu |
| **Geiriau Allweddol** | Swyddfa prosiect, rheoli prosiect |